



Cofnodion Cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe**

O bell drwy Microsoft Teams

Dydd Iau, 11 Chwefror 2021 am 3.00 pm

Yn Bresennol: Y Cyngorydd A S Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

Mark Brace, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Amanda Carr, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe
Jan Curtice, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Martyn Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru
Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Adam Hill, Cyngor Abertawe
Christopher Owen, Llywodraeth Cymru
Roger Thomas, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Hefyd yn Bresennol:

Leanne Ahern, Cyngor Abertawe
Ulfa Bennett, Cyfoeth Naturiol Cymru
Ruth Coombs, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Steve King, Cyngor Abertawe
Allison Lowe, Cyngor Abertawe
Philip McDonnell, Fforwm Amgylcheddol Abertawe
Angharad Metcalfe, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd
Amy Richmond-Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Paul Thomas, Cyngor Abertawe
Mark Wade, Grŵp Iechyd a Thai
Jamie Westcombe, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Catherine Window, Cyngor Abertawe

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Joanna Maal, Heddlu De Cymru
Deanne Martin, Carchar a Gwasanaeth Prawf EM
Phil Roberts, Cyngor Abertawe
Rob Stewart, Cyngor Abertawe
Nuria Zolle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Aelod Annibynnol)

16 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau.

17 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a gynhaliwyd ar 15 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

18 Y Diweddaraf ar Gamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol.

Rhoddodd Adam Hill, Cyngor Abertawe, yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol.

Cytunwyd y dylid nodi'r diweddariad i'r camau gweithredu.

19 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

20 Dyletswydd economaidd-gymdeithasol. (Cyflwyniad Llafar)

Rhoddodd y Parchedig Ruth Coombs a Jamie Westcombe o'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddiweddariad llafar ar y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Esboniodd y Parchedig Coombs fod disgwyl i ddyletswydd economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010 ddod i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Roedd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus rhestredig ystyried sut y gallai eu penderfyniadau helpu i leihau'r anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol fel penderfynu ar flaenoriaethau, pennu amcanion, etc. Gallai'r anghydraddoldebau hynny gynnwys anghydraddoldebau mewn addysg, iechyd, tai, cyfraddau trosedd, tueddiad i dân, etc. Nod cyffredinol y ddyletswydd oedd sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n byw ac yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Er mae'n bosib na fyddai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu rhestru o dan y ddyletswydd, dywedodd y byddai'r sefydliadau unigol a oedd yn ffurfio BGC yn cael eu rhestru. Byddai'r gwaith a wnaed gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel rhan o'r BGC hefyd yn dod o dan y ddyletswydd. Byddai angen i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddangos eu bod yn cyflawni nodau'r ddyletswydd drwy, er enghraifft, ystyried tystiolaeth ac effaith bosib a gwneud newidiadau amlwg i benderfyniadau a dyraniadau cyllid.

Felly, roedd yn bwysig iawn, wrth wneud penderfyniadau strategol fel penderfyniadau cyllidebol neu gynlluniau strategol, bod y rhain yn cael eu hystyried drwy;

- Gymuned o le neu
- Gymuned fuddiant (pobl o nodwedd gyfyngedig benodol) a bod y BGC yn cofnodi'r gwahaniaethau y mae'r ymgysylltiad hwnnw'n eu hystyried wrth wneud penderfyniadau (llwybr archwilio).

Amlinellodd Jamie Westcombe enghreifftiau amrywiol ar gyfer y Cyd-bwyllgor.

Aeth y Parchedig Coombs ymlaen i egluro rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fel rheoleiddiwr ond i ddechrau byddai'n canolbwyntio ar ddarparu cyngor a gwybodaeth i sefydliadau.

Cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (Dydd Iau, 11 Chwefror 2021) Parhad

Roedd gwaith wedi mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru (LIC) ac eraill i gynhyrchu canllawiau ar sut i weithredu'r ddyletswydd. Trefnwyd i ganllawiau ystadegol terfynol Llywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi pan ddaeth y ddyletswydd i rym ond nid oedd yn debygol o newid o'r canllawiau dros dro. Gellid dod o hyd i ganllawiau amrywiol ar wefannau Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan gynnwys yr adroddiadau ystadegol canlynol:

"A yw Cymru'n Decach 2018" (adroddiad cyffredinol):

[A yw Cymru'n Decach? \(2018\) | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol \(equalityhumanrights.com\)](https://equalityhumanrights.com/en/2018/12/11/a-yw-cymru-n-decach-2018/)

ac effaith Coronafeirws ar gydraddoldeb a hawliau dynol yn ystod 2020:

[Sut mae Coronafeirws wedi effeithio ar gydraddoldeb a hawliau dynol | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol \(equalityhumanrights.com\)](https://equalityhumanrights.com/en/2020/03/11/sut-mae-coronafeirws-wedi-ffeithio-ar-gydraddoldeb-a-hawliau-dynol/)

Byddai'r adroddiad terfynol mewn perthynas â'r ymchwil a gynhaliwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn bwriadu bwrw ymlaen â'r ddyletswydd hefyd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021.

Croesawodd y Parchedig Coombs BGC Abertawe i ystyried sut y gallai gefnogi nodau'r dyletswyddau a dangos sut y gallai wneud gwahaniaeth gweithredol i leihau anghydraddoldebau canlyniadau a newid bywydau pobl.

Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd wedi bod yn gweithio gyda Thîm Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn perthynas â sut mae'r gwahanol ddeddfau yn gorgyffwrdd ac yn cysylltu â'r nodau lles o dan y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn cefnogi'r gweithredu hwnnw.

Amlinellodd y Parchedig Coombs fanylion gweminar a drefnwyd ar gyfer 23 Chwefror gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol pe bai unrhyw un yn dymuno cofrestru:

<https://www.eventbrite.co.uk/e/equality-and-human-rights-exchange-cyfnewidfa-cydraddoldeb-a-hawliau-dynol-tickets-137814363471>

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n datblygu modiwl e-ddysgu ac roedd nifer o ffilmiau defnyddiol yn cael eu datblygu gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Soniodd Amanda Carr hefyd am adroddiad diweddar Cymunedau Llywodraeth Cymru ar ymateb y sector gwirfoddol i COVID-19 a oedd yn cynnwys rhai argymhellion a oedd yn ymwneud â sut y gallai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus weithio:

<https://www.scvs.org.uk/news/wp-report-covid3rdsector-jan21>

Pwysleisiodd y Parchedig Coombs ei bod hi a'i thîm ar gael i helpu ac arwain y BGC dros y flwyddyn neu ddwy nesaf. Croesawodd hefyd unrhyw enghreifftiau da gan y partneriaid y gellid eu rhannu fel arfer da.

Cadarnhaodd Adam Hill fod yr eitem hon wedi'i hychwanegu at raglen waith y BGC yn y dyfodol ac roedd yn edrych ymlaen at allu rhannu hyfforddiant/cyfleoedd gyda'i gilydd yn ei gyfarfod nesaf ar 8 Ebrill ar ôl i'r ddyletswydd gael ei gorfodi. Awgrymwyd bod y Parchedig Coombs a Jamie Westcombe yn dychwelyd mewn 6 mis i drafod cynnydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Parchedig Coombs a Jamie Westcombe am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth.

Nodwyd y diweddariad llafar.

21 Ymagwedd Iechyd Cyhoeddus Integredig at Gamddefnyddio Sylweddau.

Rhoddodd Angharad Metcalfe, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ddiweddariad llafar ar Ddull Iechyd Cyhoeddus Integredig at Gamddefnyddio Sylweddau.

Atgoffodd y Pwyllgor eu bod, ynghyd â Josie Smith, wedi llunio papur ar y Dull Iechyd Cyhoeddus Integredig ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Ym mis Ionawr 2020 cytunodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot eu bod am ddefnyddio dull newydd o fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn ardaloedd Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Felly, ar 16 Hydref 2020 gofynnodd y BGC ar y cyd iddi ystyried sut y gellid rhoi'r ymagwedd amlddisgyblaethol, aml-sector a chydweithredol ar waith.

Ers hynny, cafwyd cymorth ac arbenigedd gan Gomisiwn Dundee, yn enwedig Andy Perkins, gan fod Dundee wedi profi nifer sylweddol o farwolaethau'n gysylltiedig â chyffuriau. Yn ogystal, ymgynghorwyd â Lynda Hutchinson, arbenigwr mewn comisiynu cynghreirio. Byddai hyn yn ymagwedd system gyfan newydd tebyg i'r un a fabwysiadwyd gan Plymouth, a oedd wedi llwyddo i leihau 26 o gontractau i dim ond 1. Roedd hyn yn golygu y bu arbedion sylweddol ond roedd hefyd yn sicrhau ei fod yn ystyried y canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Pwysleisiodd fod angen i'r ymagwedd fabwysiedig gael ei datblygu gan lais defnyddwyr gwasanaeth, clinigwyr a staff sy'n gweithio gyda'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.

Aeth ymlaen i ddweud bod y Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) bellach yn ystyried gweithredu a manylion i'w cyflawni. Y gobaith oedd, yn dilyn y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 3 Mawrth 2021, y byddai cytundeb cadarn o'r strwythur a'r llywodraethu er mwyn gweithredu gweledigaeth/cytundeb egwyddorion er mwyn symud ymlaen gyda chyflawni, comisiynu a chynllunio manwl.

Pwysleisiodd fod angen cymryd camau ar frys o ystyried faint o farwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau sy'n parhau i fod, ond byddai angen rhoi ystyriaeth sylweddol i gymhlethdodau'r unigolion dan sylw.

Er bod y Pwyllgor yn gefnogol o ran datblygu'r darn hwn o waith, cafwyd trafodaeth ynglŷn â llywodraethu a'r llwybr ar gyfer cymeradwyo'r broses. Roedd angen egluro

hyn drwy'r BCA a'i adrodd yn ôl i Gyd-bwyllgor BGC Abertawe. Yn ogystal, byddai angen ymgynghori â Bwrdd y Rhaglen Ranbarthol oherwydd eu cysylltiadau â chomisiynu Iechyd Meddwl.

Trafodwyd ariannu'r cynllun gan y byddai angen adnodd penodol ar waith i yrru hyn yn ei flaen fel rhaglen newid sylweddol. Cadarnhawyd na fyddai'r cyllid presennol yn cael ei ddargyfeirio i'r cynllun hwn, ond nodwyd y byddai angen defnyddio'r cyllid ar gyfer camddefnyddio sylweddau yn fwy effeithiol yn y tymor hir.

Dywedodd Angharad Metcalfe y byddai'n parhau i ddod o hyd i opsiynau ar gyfer mwy o gymorth a chyllid i'r rhanbarth er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau. Cadarnhaodd Mark Brace fod y llythyrau ar gyfer cyllid diogelwch cymunedol wedi'u dosbarthu yr wythnos hon ac y byddai'r ffordd yr ariannwyd diogelwch cymunedol yn cael ei hadnewyddu dros y 3 blynedd nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i Angharad Metcalfe am y diweddariad ac roedd yn edrych ymlaen at dderbyn rhagor o fanylion ar ôl cwblhau'r strwythur Llywodraethu a'r dulliau adrodd.

Nodwyd y diweddariad.

22 Llythyr ac adborth gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu a'r Cynllun Gweithredu.

Cyfeiriodd Adam Hill, Cyngor Abertawe, at y llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu ynghylch y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2020.

Yn ogystal â thrafodaeth ynglŷn â threfniadau'r BGC yn y dyfodol (rhanbarthol yn hytrach na threfniadau Awdurdodau Lleol), amlygwyd 3 phrif bwynt yn y llythyr:

- a) Gwella'r fframwaith perfformiad er mwyn dangos yn well y gwahaniaeth pendant y mae'r BGC yn ei wneud;
- b) Gwella gwelededd/negeseuon y cyhoedd am waith y BGC;
- c) Pwyso ar Lywodraeth Cymru ar adnoddau'r BGC.

Roedd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu wedi cadarnhau y byddai'n craffu ar waith y BGC ddwywaith y flwyddyn.

Cytunwyd:

- 1) Dylid nodi'r pwyntiau a amlinellwyd yn y llythyr;
- 2) Trafodir yr eitemau a godwyd mewn cyfarfod o'r Cydbwyllgor yn y dyfodol.

23 Cynigion Cychwynnol ar gyfer Asesu Lles Lleol 2022.

Cyflwynodd Steve King, Arweinydd Tîm Gwybodaeth, Ymchwil a GIS, Cyngor Abertawe adroddiad i nodi cynigion cychwynnol ar gyfer cynnal yr Asesiad Lles Lleol nesaf ar gyfer 2022.

Cytunwyd:

- 1) Bod y Cyd-bwyllgor yn cefnogi'r ymagwedd a'r cynigion cyffredinol a amlinellir yn yr adroddiad hwn;
- 2) Bod partneriaid statudol yn enwebu cynrychiolwyr o bob un o'u sefydliadau ar gyfer y Grŵp Asesu Golygyddol arfaethedig (drwy e-bost at Steve King o fewn 7 niwrnod);
- 3) Y bydd y Cyd-bwyllgor yn cynnig enwebeion eraill i gymryd rhan yn y Grŵp a/neu'r Fforwm Ymchwil (drwy e-bost at Steve King o fewn 7 niwrnod).

24 Y diweddaraŵ am y Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol a'r Stryd Fawr. (Llafar/Cyflwyniad)

Rhoddodd Paul Thomas, Rheolwr Integreiddio a Phartneriaeth Gymunedol, Cyngor Abertawe yr wybodaeth ddiweddaraŵ am y Grŵp Digwyddiadau Tyngedfennol a'r Stryd Fawr, Abertawe.

Amlinellodd y materion a oedd yn effeithio ar y Stryd Fawr a'r ardaloedd cyfagos a'r canlyniadau y disgwyliid iddynt gael eu cyflawni.

Esboniodd y cyfleoedd i ddefnyddio eiddo gwag ar ben uchaf y Stryd Fawr i greu gofod cymunedol a gwella'r manau cyhoeddus. Byddai ymgysylltu/ymgynghori â gwahanol bartneriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn nodi anghenion a gofynion penodol y rheini sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

Aeth ymlaen i amlinellu'r amrywiol lwyddiannau a gyflawnwyd hyd yma ac a oedd yn mynd rhagddynt a erfyniodd ar bartneriaid y BGC i gefnogi'r cynllun mewn unrhyw ffordd bosib, megis gwirfoddoli neu drwy wahanol ffrydiau cyllido cyllideb a allai fod ar gael.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Integreiddio a Phartneriaeth Gymunedol am y diweddariad a'i frwdfrydedd dros y cynllun.

Nodwyd y diweddariad.

25 Llythyr gan y Gweinidog dros Dai a Llywodraeth Leol. (Llafar)

Cyfeiriodd Adam Hill, Cyngor Abertawe at lythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y BGC yn diolch i'r partneriaid am eu cymorth ar y cyd wrth ddelio â'r ymateb i bandemig COVID-19.

Gofynnodd y Gweinidog hefyd i bartneriaid amlinellu beth arall y teimlent y gellid ei ddatblygu wrth i ni weithio tua diwedd y broses. Byddai Adam Hill a'r Cynghorydd Andrea Lewis yn rhannu barn partneriaid y BGC yn y cyfarfod gyda'r Gweinidog a drefnwyd ar gyfer 22 Mawrth 2021.

Cam gweithredu: Rhaid anfon yr holl ymatebion erbyn dydd Mercher, 17 Chwefror 2021.

26 Adolygiad o'r Cylch Gorchwyl/Aelodaeth. (Llafar)

Amlinellodd Adam Hill, Cyngor Abertawe, Gylch Gorchwyl y BGC i sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben. Cytunwyd arnynt yn flaenorol gan y BGC ar 11 Ebrill 2019.

Cafwyd trafodaeth am y gynrychiolaeth yn y Cyd-bwyllgor, ond pwysleisiwyd mai'r Cyd-bwyllgor oedd elfen strategol y BGC ac y dylid cyflwyno unrhyw sylwadau i un o'r arweinydd Partneriaid Strategol, a fyddai'n codi unrhyw fater neu bryder yn y Cyd-bwyllgor.

Penderfynwyd cymeradwyo Cylch Gorchwyl/Aelodaeth y BGC.

27 Adeiladu Cyfoeth Cymunedol - Caffael Parhaus - Clystyrau BGC. (Llafar)

Eitem heb ei thrafod.

28 Rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. (Trafodaeth lafar)

Amlinellodd y Cadeirydd Raglen Waith y Dyfodol fel yr amlinellir yn eitem 14 ar yr agenda.

Penderfynwyd:

- 1) Dylid nodi'r cynllun gwaith;
- 2) Anfon unrhyw eitemau ychwanegol at Leanne Ahern;
- 3) "Ymgyrch Dawns Glaw" i'w hychwanegu at yr agenda ar gyfer 8 Ebrill 2021;
- 4) 8 Ebrill 2021 - cyfarfod yn cael ei ymestyn i 2 awr.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.46 pm

Cadeirydd